Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle – canllaw i feysydd carafanau a meysydd gwersylla

businessofrecycling.wrap.org.uk

Y BUSNES O AILGYLCHU
THE BUSINESS OF RECYCLING
WRAP CYMRU

Cymru yn ailgylchu
Wales recycles

Cynnwys

Pam mae angen ichi ailgylchu?

Pam mae angen ichi ailgylchu (tudalen 2)?

Sut i ddeall eich gwastraff ac ailgylchu'n well

Atal gwastraff yn y lle cyntaf

Sut i gydymffurfio â'r gyfraith ailgylchu newydd

Sut i drefnu gwasanaeth ailgylchu newydd

Lle ar gyfer eich biniau?

Lleoliad a storio biniau

Ymgysylltu a chyfathrebu â phreswylwyr

Ymgysylltu â staff

Cydymffurfio

Rheoli'r system

Adnoddau a gwybodaeth ychwanegol

Pam mae angen ichi ailgylchu?

Dylid darllen y canllaw hwn ar y cyd â Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân i'w Hailgylchu: Cod Ymarfer Cymru (www.llyw.cymru/ailgylchuynygweithle). Mae'r canllaw hwn yn darparu cyngor ategol ac ni ddylid ei ddarllen fel canllaw ar ei ben ei hun.

Mae'r canllaw hwn ar gyfer meysydd carafanau a meysydd gwersylla ond gallai fod yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer y rhai sy'n rheoli ffurfiau eraill ar lety gwyliau yn cynnwys parciau gwyliau a chyrchfannau.

Mae'n gyfraith bellach i bob gweithle wahanu'r deunyddiau canlynol i'w hailgylchu a threfnu i'r gwastraff gael ei gasglu ar wahân i wastraff arall.

Nid yw meddianwyr carafanau unigol sy'n cyflwyno eu gwastraff yn uniongyrchol i'w gasglu o'u carafán gan gasglwr gwastraff awdurdodedig yn dod o fewn cwmpas y Rheoliadau.

Mae meysydd o bob maint wedi'u cynnwys, waeth pa wasanaethau a ddarperir ar y safle. Os ydych yn cael gwared ar wastraff ymwelwyr neu gwsmeriaid – e.e. trwy ddarparu biniau ar faes carafanau neu faes gwersylla, yna mae'r rheoliadau'n berthnasol i'r gwastraff hwnnw hefyd.

... a beth i'w ailgylchu?

- Papur a cherdyn;
- Gwydr;
- Metel, plastig, a chartonau (a deunyddiau eraill tebyg, er enghraifft, cwpanau coffi);
- Bwyd – unrhyw safle sy'n cynhyrchu 5kg neu fwy o wastraff bwyd mewn saith diwrnod yn olynol;
- Cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach (sWEEE) heb eu gwerthu; a
- Tecstilau heb eu gwerthu.

Pam mae angen ichi ailgylchu?

Dim ond ar gyfer gwastraff tebyg i wastraff o'r cartref a gynhyrchir gan weithleoedd y mae'r gyfraith hon yn berthnasol, hynny yw, gwastraff a geir mewn cartrefi fel arfer ac a gaiff ei gasglu'n arferol o ymyl y ffordd.

Mae rhestr lawn o ddeunyddiau ailgylchadwy y dylid eu cyflwyno ar wahân i'w hailgylchu ar gael yma: Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer. (www.llyw.cymru/ailgylchuynygweithle)

Fel cynhyrchydd gwastraff, mae'n ofynnol ichi gynhyrchu nodyn trosglwyddo gwastraff. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd eich casglwr gwastraff yn gwneud hyn i chi. Dylech ei wirio'n ofalus i sicrhau bod y disgrifiad o'r gwastraff sy'n cael ei gasglu'n gywir. Ni chaiff eich casglwr gwastraff anfon unrhyw un o'r deunyddiau wedi'u gwahanu i dirlenwi neu losgi. Gallech ystyried gofyn i'ch casglwr gwastraff am dystiolaeth reolaidd o ble mae eich gwastraff ac ailgylchu'n cael ei gludo iddo.

Er na fydd yn anghyfreithlon ichi gael uned mwydo, peiriant dad-ddyfrio, neu dechnoleg gwaredu gwastraff bwyd arall tebyg, bydd yn anghyfreithlon ichi eu defnyddio i anfon gwastraff bwyd i garthffosydd.

Sut i ddeall eich gwastraff ac ailgylchu'n well

Er mwyn deall y gwahanol fathau o wastraff y mae eich maes carafanau neu faes gwersylla yn ei gynhyrchu, cynhaliwch archwiliad gwastraff trwy gerdded trwy'r gwahanol ardaloedd o fewn eich safle. Gall hyn gynnwys ardaloedd ar gyfer carafanau a gwersylla, cyfleusterau i westeion fel ardaloedd golchi llestri a blociau cawod, swyddfeydd, cyfleusterau ar y safle fel caffis, siopau, neu lolfeydd, i archwilio cynnwys biniau gwastraff cyffredinol, ac i dynnu sylw at unrhyw leihad mewn gwastraff neu ymdrechion ailgylchu sydd eisoes ar waith. Meddyliwch hefyd am y bobl a fydd yn defnyddio eich cyfleusterau a'r mathau o wastraff y gallent ei gynhyrchu.

Ar eich safle, mae'r mannau sy'n fwyaf tebygol o gynhyrchu gwastraff yn cynnwys:

- Lletyai gwesteion a gwyliau – bwyd (bwyd wedi difetha, gwastraff paratoi, gwastraff plât), gwastraff pecynnu fel caniau diodydd, poteli plastig a gwydr, cartonau diod, cardbord, a phapur.
- Ceginau ac unrhyw gaffis ar y safle;
  - Mannau paratoi bwyd – bwyd (gwastraff paratoi a bwyd wedi difetha), deunyddiau pacio fel metel, gwydr, cardbord, ffilmiau plastig a deunydd lapio.
  - Mannau bwyta bwyd – bwyd (gwastraff plât), gwastraff pecynnu fel caniau diodydd, poteli plastig a gwydr, cartonau diod, cardbord, a phapur;
- Ystafell staff/ystafell fwyta/swyddfa – papur, bwyd, a deunydd pacio;
- Mannau cyhoeddus fel mannau golchi llestri a blociau cawodydd – bwyd heb ei fwyta, gwastraff pecynnu fel caniau diod, poteli plastig a gwydr, cartonau diod, cardbord a phapur;
- Cyfleusterau ar y safle fel siopau neu lolfeydd – papur a deunyddiau pecynnu fel cardbord, ffilmiau plastig a lapio; a thecstilau heb eu gwerthu a nwyddau trydanol bach heb eu gwerthu.

Yn dibynnu ar natur benodol eich busnes a'r gwasanaethau a ddarperir gennych, efallai eich bod yn cynhyrchu gwahanol fathau o wastraff, er enghraifft, olewau coginio a brasterau, silindrau nwy gwersylla tafladwy neu fatris a fydd yn galw am wasanaeth casglu gwastraff arbenigol.

Atal gwastraff yn y lle cyntaf

Bydd lleihau neu atal faint o wastraff yr ydych yn ei gynhyrchu'n helpu i arbed arian a lleihau maint y biniau y bydd eu hangen arnoch.

Dyma rai awgrymiadau i leihau eich gwastraff:

Darparu gwybodaeth safle a mapiau i westeion/ymwelwyr sy'n hygyrch ar ffonau clyfar yn hytrach na chopïau printiedig.

- Sefydlwch fan casglu neu stondin roddion ar gyfer unrhyw eitemau diangen neu dros ben y gall eich gwesteion fod eisiau eu rhoi ar ddiwedd eu harhosiad, gallai hyn gynnwys bwyd heb ei agor ac sy'n para'n hir, teganau a gemau plant, bwcedi a rhawiau, neu wybodaeth i dwristiaid ar gyrchfannau lleol. Gall gwesteion eraill ddefnyddio'r rhain, neu gellir eu rhoi i elusennau lleol.
- Rhoddi stoc ormodol neu stoc heb ei werthu – gallwch roi gwarged bwyd i elusen neu gael oergell ar gyfer staff i ddal cynnyrch y gallant ei fwyta neu ei gludo adref am ddim. Mae canllaw ar gael ar Sut mae'n rhaid i fusnesau bwyd gael gwared ar fwyd a chyn ddeunyddiau bwyd – (www.gov.uk).
- Defnyddiwch ddulliau marchnata a chyfathrebu di-bapur, pecynnau croeso e-bost a gwybodaeth am y safle.
- Prynwch nwyddau eilgylch, nwyddau y gellir eu hail-lenwi neu eu hailddefnyddio pan bynnag fo'n bosibl.
- Darparwch ffynhonnau dŵr i staff a gwesteion eu defnyddio.
- Defnyddiwch gwpanau, llestri ac offer y gellir eu hailddefnyddio mewn gwasanaethau arlwyo.
- Ar gyfer diodydd tecawê, anogwch eich cwsmeriaid i ddod â'u cwpan ailddefnyddiadwy eu hunain drwy godi tâl am gwpanau untro.
- Sicrhewch fod cyn lleied â phosibl o ddeunydd pacio ar eich bwyd a diod tecawê a bod y deunydd pacio a gaiff ei ddefnyddio yn gallu cael ei ailgylchu, neu ei ailddefnyddio.

Efallai y bydd cost ynghlwm â gwneud y newidiadau hyn i rai safleoedd, ond gallai cynyddu faint rydych yn ei ailgylchu leihau eich costau gwar[illegible] gwastraff yn y tymor canolig i'r tymor hir. Gan fod y gyfraith hon yn berthnasol i holl arlwywyr bwyd a diod, bydd yn cael ei ystyried fel rhan o [illegible] busnes a rheoli.

Sut i gydymffurfio â'r gyfraith ailgylchu newydd

Argymhellwn ichi ddarllen Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer (www.llyw.cymru/ailgylchynygweithle) i wneud yn siŵr eich bod yn gwneud popeth y mae angen ichi ei wneud. Mae hyn yn cynnwys rhestr o'r holl fathau penodol o bethau y mae'n rhaid eu hailgylchu;

Nid yw meddianwyr carafanau unigol sy'n cyflwyno eu gwastraff yn uniongyrchol i'w gasglu o'u carafán gan gasglwr gwastraff awdurdodedig yn dod o fewn cwmpas y Rheoliadau.

Fodd bynnag, lle mae gan feysydd carafanau neu safleoedd drefniadau casglu gwastraff cymunedol, rhaid i'r gwastraff gael ei wahanu yn unol â'r Rheoliadau. (Gweler adran 5 o'r Cod Ymarfer am fanylion llawn).

Sut i drefnu gwasanaeth ailgylchu newydd

- Siaradwch â'ch casglwr gwastraff presennol am eich anghenion ailgylchu a sut y gallant weithio gyda'ch gwasanaeth casglu presennol;
- Efallai bydd angen i'ch gwasanaeth casglu, yn cynnwys y nifer o finiau a pha mor aml y bydd angen eu gwagio, fod yn hyblyg i roi ystyriaeth i gyfnodau prysur a distawach yn y tymor twristiaeth.
- Siaradwch gyda'ch casglwyr i benderfynu a yw'n werth cael casgliadau ar ddyddiau penodol yn yr wythnos, e.e. ar ôl penwythnosau prysur neu 'ddiwrnodiau newid gwesteion', yn helpu i atal gwastraff a deunyddiau i'w hailgylchu rhag pentyrru;
- Efallai mai ychydig yn aml fydd yn gweithio'n well i chi. Mae'r rhan fwyaf o gasglwyr gwastraff yn cynnig cynwysyddion o wahanol feintiau, yn cynnwys sachau ar gyfer rhai mathau o wastraff. Unwaith y byddwch yn dechrau ailgylchu, efallai y byddwch yn gallu lleihau maint eich bin gwastraff cyffredinol;
- Gallech hefyd gael dyfynbrisiau gan amrywiaeth o gasglwyr er mwyn cael y pris gorau a'r gwasanaeth sy'n fwyaf addas i chi.
- Os gwneir cais, mae'n rhaid i gynghorau drefnu gwasanaethau casglu gwastraff ac ailgylchu i chi. Mae cost am y gwasanaethau hyn. Mewn ardaloedd gwledig, efallai y gwelwch fod yr opsiynau ar gyfer gwastraff ac ailgylchu'n fwy cyfyngedig, ac mai dim ond cynghorau sir fydd yn darparu gwasanaeth casglu i chi, yn enwedig os nad ydych yn cynhyrchu llawer o wastraff.

Lle ar gyfer eich biniau?

Deellir bod gofod yn brin mewn carafanau a mathau eraill o lety gwyliau. Nid oes unrhyw ddisgwyliad na gofyniad i ddarparu biniau ailgylchu unigol ar gyfer pob ffrwd ym mhob math o garafán neu lety. Nid yw'r Rheoliadau yn nodi'r gofynion ar gyfer cyfluniadau biniau – dim ond ar y pwynt o'u cyflwyno i'w casglu y mae angen gwahanu (cyfeiriwch at baragraffau 7.14 – 7.16 yn y Cod Ymarfer). Perchenogion y safle sy'n gyfrifol am sut mae safle'n casglu'r deunyddiau penodedig. Nid oes unrhyw ffordd benodol o gasglu'r deunyddiau.

Rhaid cyflwyno'r deunyddiau penodedig a gesglir yn gymunedol o faes carafanau i'r casglwr gwastraff ar wahân i'w hailgylchu. Ni ellir ei gyflwyno'n gymysg i'w ddidoli'n ddiweddarach. Byddai angen i'r dull a ddefnyddir i wneud hyn o fewn yr unedau gael ei drefnu fesul achos.

Ymhlith yr opsiynau i gasglu deunyddiau o garafanau mae:

- Darparu gorsafoedd ailgylchu mewn lleoliadau canolog a hygyrch ar draws y safle a gofyn i ymwelwyr fynd â'u deunyddiau ailgylchu i'r lleoliadau hyn;
- Darparu cynwysyddion bach y gellir eu stacio mewn unedau llety; neu
- Darparu bagiau lliw wedi'u labelu'n glir i gynorthwyo gwesteion i storio a chludo eu deunyddiau ailgylchadwy i'r gorsafoedd ailgylchu.

Lleoliad a storio biniau

- Wedi'u labelu'n glir i osgoi halogiad. Gallwch ddefnyddio labeli oddi ar wefan y Busnes o Ailgylchu (busnesoailgylchu.wrapcymru.org.uk), ac
- Yn ddiogel a hygyrch i bobl, yn cynnwys defnyddwyr sydd ag anableddau, a'ch casglwr gwastraff.
- Ddim mewn lleoliadau sy'n peri rhwystr, perygl tân neu'n rhwystro llwybrau dihangfa.
- Yn darparu digon o gapasiti i ymdopi â'r mathau a'r symiau o wastraff a deunyddiau ailgylchadwy'r ydych yn eu cynhyrchu a'u storio rhwng casgliadau.
- Ddim wedi'u lleoli wrth ymyl ardaloedd paratoi neu storio bwyd am resymau diogelwch a hylendid.
- Yn agos i'r man lle mae'r gwastraff a'r ailgylchu'n cael ei gynhyrchu, h.y., mewn ardaloedd lle mae nifer fawr o bobl yn ymweld â'r mynedfeydd neu'r allanfeydd, mannau cymunedol, cynteddau, wrth ymyl consesiynau, mannau paratoi bwyd, wrth ymyl y cyfleusterau mewn gwersylloedd;
- Yn daclus, yn lân, a heb lanast neu wastraff rhydd.
- Yn cael eu diogelu gyda chaeadau sy'n cau'n sownd, ac nad ydynt yn caniatáu i wastraff neu ailgylchu ddianc.

Ymgysylltu ag ymwelwyr a gwesteion

Mae posteri ac adnoddau ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Busnes o Ailgylchu sy'n rhestru'n glir pa eitemau y gellir eu hailgylchu. Byddem yn awgrymu cynnwys gwybodaeth ailgylchu ar ddeunyddiau a ddarperir gennych ar gyfer ymwelwyr a staff (busnesoailgylchu.wrapcymru.org.uk).

- Cynnwys negeseuon am eich system ailgylchu ar eich gwefan ac unrhyw sianeli cyfryngau cymdeithasol, mae twristiaeth werdd a chynaliadwy yn boblogaidd iawn;
- Dylai unrhyw fenter ailgylchu fod yn rhan o'r profiad ac ni ddylid ei gweld fel rhywbeth 'ychwanegol';
- Cyfathrebu'n glir â'ch gwesteion cyn, yn ystod ac o bosibl ar ôl eu harhosiad;
- Er mwyn cadw biniau ailgylchu yn rhydd o halogiad sicrhewch eu bod wedi'u labelu'n glir gyda'r hyn y gellir ac na ellir ei roi yn y biniau a'u bod yn hawdd eu lleoli ar eich safle trwy fapiau safle neu arwyddion ar y safle;
- Darparwch wybodaeth glir ar eich gwefan ac fel rhan o'r pecyn croeso a ddarperir i ymwelwyr ar y cynlluniau ailgylchu sydd ar waith ac unrhyw fentrau 'gwyrdd' eraill rydych yn eu datblygu neu'n eu rhoi ar waith;
- Hyrwyddwch unrhyw lwyddiannau, e.e. unrhyw gynnydd yn y gyfradd ailgylchu;
- Gofynnwch i westeion am adborth ar eu harhosiad a nodwch sut y gweithiodd y casgliad ailgylchu neu sut y gellid ei wella.

Ymgysylltu â staff

Wrth ymgysylltu â staff:

- Gofynnwch am syniadau ar sut y gallai cynllun weithio, oherwydd efallai eu bod wedi sylwi ar gyfleoedd neu faterion nad ydych wedi'u hystyried;
- Darparwch gyfarwyddiadau clir ar yr hyn y dylent ei wneud gyda gwahanol ffrydiau gwastraff neu ddeunyddiau ailgylchadwy i'ch helpu i gwrdd â'ch rhwymedigaethau ailgylchu newydd;
- Darparwch hyfforddiant i weithwyr parhaol, tymhorol a dros dro. Defnyddiwch hyfforddiant sefydlu i sicrhau bod dechreuwyr newydd yn gallu ailgylchu o'r diwrnod cyntaf, gyda hyfforddiant rheolaidd a nodiadau atgoffa ar gyfer yr holl weithwyr;
- Rhannwch wybodaeth am ailgylchu trwy ddiweddariadau rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm ac ar hysbysfyrddau staff fel bod gweithwyr yn clywed am y gwahaniaethau y mae eu gweithredoedd yn eu gwneud a
- Gofynnwch am adborth os nad yw systemau ailgylchu'n gweithio'n dda, sicrhewch fod gweithwyr yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt a bod materion yn cael eu nodi'n brydlon cyn iddynt achosi mwy o broblemau.

Rheoli'r system

Mae rhai busnesau gwyliau wedi mynegi pryder na fydd eu gwesteion yn cydymffurfio â'r systemau ailgylchu ac y bydd yn rhaid i'w staff wedyn ddidoli drwy fagiau o wastraff. Nid dyma fwriad y deddfau newydd.

- Bydd angen i chi sicrhau bod y biniau ailgylchu wedi'u labelu'n glir, bod y system ailgylchu sydd ar waith yn cael ei chyfleu i staff ac ymwelwyr a bod digon o gynwysyddion yn cael eu darparu i'ch staff a'ch gwesteion eu defnyddio'n gywir.
- Fe'ch cynghorir i fonitro effeithiolrwydd eich system ailgylchu a gwneud unrhyw newid sydd ei angen i sicrhau ei bod yn gweithio'n dda.
- Fe'ch cynghorir i siarad â'ch casglwr gwastraff ynghylch goddef halogiad a'r gweithdrefnau sydd ganddo ar gyfer ymdrin â halogiad.
- Mae'r Cod Ymarfer (paragraff 7.37) yn cynnwys mwy o fanylion am y camau y cynghorir chi i'w cymryd mewn perthynas â halogiad.

Cydymffurfio

- Bydd angen i chi allu dangos i'r rheolyddion eich bod yn cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â'r rheoliadau newydd.
- Os bydd diffyg cydymffurfio, gall Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) roi cyngor ac arweiniad fel ymateb cyntaf lle bo'n briodol.
- Ar gyfer digwyddiadau mwy difrifol neu ddiffyg cydymffurfio parhaus, mae gan CNC bwerau i fabwysiadu ymagwedd fwy cadarn pan fo angen, gan gynnwys sancsiynau sifil (cosbau ariannol sefydlog ac amrywiol) ac achosion troseddol.
- Bydd y cosbau ariannol penodedig naill ai'n £300 neu £500 yn dibynnu ar y toriad ar gyfer pob digwyddiad.

Adnoddau a gwybodaeth ychwanegol

- Cyfraith Ailgylchu yn y Gweithle - The Waste Separation Requirements (Wales) Regulations 2023
- Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio'r gofynion gwahanu a'r gwaharddiadau ar anfon deunyddiau i dirlenwi. Maent wedi cynhyrchu gwybodaeth am eu dulliau o reoleiddio'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle (naturalresourceswales.gov.uk/about-us/news-and-blogs/blogs/workplace-recycling-nrw-approaches-to-regulating)

Cymru yn ailgylchu
Wales recycles

Y BUSNES O AILGYLCHU
THE BUSINESS OF RECYCLING
WRAP CYMRU

Gweithredu ar Hinsawdd Cymru
Climate Action Wales

WalesRecycles@wrap.org.uk
CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk